**Bwletin o Batagonia 1 gan Twm Elias**

Wedi taith hir a blinedig dros nos, cyrraedd Buenos Aires a chael ychydig oriau i grwydro'r meysydd ger y gwesty, oedd ychydig allan o'r ddinas. Llwyddo i gael lluniau o aderyn yr oeddwn wedi gobeithio ei weld, sef 'cornchwiglen' Cymry Patagonia. Nid ein cornchwiglen ni yn naturiol, ond cornchwiglen de America i roi ei henw safonol Cymraeg iddi *(Vanellus chilensis)*. Mae hi yn fwy a thalach na'n un ni, efo cefn a phen llwyd, gwyneb a bron ddu, cudyn bach o blu ar gefn y pen, a'i hosgo yn debyg iawn i'r rhai yng Nghymru. Cychwyn oddiyma i'r maes awyr am 3.00yb i ddal awyren i Drelew – mi fyddan ni wedi ymlâdd, ond yn edrych ymlaen yn arw.



Hon yw Cornchwiglen Cymru (Vanellus vanellus):

